Neath Port Talbot
Castell-nedd Port Talbot
County Borough Council Cyngor Bwrdeistref Sirol

# AGENDA

## *PWYLLGOR CYNLLUNIO*

***2.00 PM - DYDD MAWRTH, 5 CHWEFROR 2019***

***<u>YSTAFELLOEDD PWYLLGOR 1/2 - CANOLFAN DDINESIG PORT TALBOT</u>***

**<u>Rhan 1</u>**

1. Datganiadau o gysylltiad

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol *(Tudalennau 5 - 8)*

3. Gwneud cais am ymweliad(au) safle gan y ceisiadau a gyflwynwyd

**<u>Adroddiadau gan Bennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd</u>**

**<u>Adran A - Materion i'w Penderfynu</u>**

**<u>Ceisiadau Cynllunio wedi'u hargymell ar gyfer Cymeradwyaeth</u>**

4. Rhif y cais: P2018/1024 *(Tudalennau 9 - 46)*
Ailddatblygu canol tref Castell-nedd sy'n cynnwys 8 uned fanwerthu A1 ac 1 uned llawr cyntaf (defnydd A1, A3 neu D2) ynghyd ag iard wasanaeth gysylltiedig a thirlunio caled a meddal ar dir yn Stryd y Dŵr, Castell-nedd SA11 3EP.

5. Rhif y cais: P2018/1036 *(Tudalennau 47 - 66)*
Dymchwel adeileddau presennol sy'n cynnwys y system echdynnu llwch eilaidd ar gyfer y gwaith sinter a gosod system eilaidd yn ei lle, gan gynnwys system hidlydd bag sy'n cynnwys adeiledd 6 llawr, pibellau a thiwbiau, corn simnai (55m o uchder), cyfarpar trydanol, tirlunio caled a meddal a datblygiad cysylltiedig ar dir yn agos i'r gwaith sinter presennol, Gwaith Dur Port Talbot, Margam, Port Talbot SA13 2NG.

6. Rhif y cais: P2019/0042 *(Tudalennau 67 - 72)*
Garej newydd yn 10 Rhodfa St Asaph, Sandfields, Port Talbot SA12 7LL.

**Adran B - Materion Er Gwybodaeth**

7. Penderfyniadau Dirprwyedig 08.01.19 - 28.01.19
*(Tudalennau 73 - 78)*

8. Eitemau brys
Unrhyw eitemau brys yn ôl disgresiwn y Cadeirydd yn unol ag Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**S.Phillips**
**Prif Weithredwr**

**Canolfan Ddinesig**
**Port Talbot** **Dydd Mercher, 30 Ionawr 2019**

**<u>Aelodaeth Pwyllgor:</u>**

**Cadeirydd:** **S.Paddison**

**Is-Gadeirydd:** **H.N.James**

**Aelodau:** Councillors A.R.Aubrey, S.Bamsey, R.Davies, W.F.Griffiths, S.K.Hunt, C.J.Jones, S.Pursey, A.McGrath, R.Mizen a/ac L.Jones

**Aelod Cabinet:** Councillor A.Wingrave

**<u>Gwneud cais i siarad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio</u>**

Mae gan y cyhoedd hawl i fynd i'r cyfarfod ac annerch y pwyllgor yn unol â gweithdrefn gytunedig y cyngor sydd ar gael yn www.npt.gov.uk/planning**.**

Os hoffech siarad yn y Pwyllgor Cynllunio ynghylch cais yr adroddwyd amdano i'r pwyllgor hwn, mae'n rhaid i chi:

- Gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifenedig, naill ai drwy'r post yn: Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1PJ, neu'n ddelfrydol drwy e-bostio: democratic.services@npt.gov.uk.
- Sicrhau eich bod yn gwneud eich cais i siarad ddau ddiwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod fan bellaf (erbyn 2pm ar y dydd Gwener blaenorol os yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth).
- Nodi'n glir rif yr eitem neu'r cais rydych am siarad amdani/o a chadarnhewch a ydych yn cefnogi'r cais neu'n ei wrthwynebu.
- Rhoi eich enw a'ch cyfeiriad (a fydd ar gael i'r cyhoedd oni bai fod rhesymau penodol dros gyfrinachedd).

Sylwer, dim ond un person sy'n gallu siarad ar ran pob 'categori' ar gyfer pob cais h.y. y gwrthwynebydd, y cefnogwr, yr ymgeisydd/asiant, y Cyngor Cymuned/Tref. Ceir manylion llawn yng ngweithdrefn gytunedig y cyngor.

Yn ogystal, os yw gwrthwynebydd yn dymuno siarad, hysbysir yr ymgeisydd/asiant gan y cyngor.

Os ydych yn dymuno trafod unrhyw agwedd ar siarad cyhoeddus, ffoniwch dîm y Gwasanaethau Democrataidd ar 01639 763313.

**<u>Cyflwyno sylwadau ar geisiadau cynllunio yr adroddir amdanynt i'r pwyllgor</u>**

Os ydych yn dymuno cyflwyno sylwadau ar gais a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio hwn, sylwer bod rhaid i'r Adran Gynllunio dderbyn y rhain erbyn <u>2.00pm ar y dydd Gwener cyn cyfarfod y pwyllgor fan bellaf</u> (yn seiliedig ar y cyfarfod dydd Mawrth arferol). Os nad yw'r cyfarfod ar ddydd Mawrth, dylid eu derbyn erbyn 2.00pm ar y diwrnod gwaith olaf ond un cyn y Pwyllgor Cynllunio fan bellaf.

Caiff sylwadau a dderbynnir yn unol â phrotocol y cyngor eu crynhoi a, lle y bo'n briodol, gwneir sylwadau arnynt ar ffurf Taflen Ddiwygio, a ddosberthir i aelodau'r Pwyllgor Cynllunio drwy e-bost ar y noson cyn cyfarfod y pwyllgor, a'i chyflwyno ar ffurf copi caled yn y cyfarfod.